# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Cyngor Gwynedd

Cyhoeddwyd: Mehefin 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 245A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Nigel Griffiths o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Diben yr adroddiad hwn | 4 |
| Mae ymrwymiad y Cyngor i ddod yn sefydliad sy'n canolbwyntio'n well ar ddinasyddion a'i record o ran cyflawni ei amcanion gwasanaeth ac ariannol yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16 | 5 |
| Gwaith archwilio ac arolygu perfformiad 2014-15 | 5 |
| Penawdau - crynodeb o'r prif ganfyddiadau | 7 |
| Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella | 9 |
| Adroddiad manwl | 10 |
| Perfformiad | 11 |
| Y Defnydd o Adnoddau | 21 |
| Llywodraethu | 23 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 26 |
| Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Gwynedd | 27 |
| Atodiad 3 – Archwiliad o Asesiad Cyngor Gwynedd o berfformiad 2013-14 | 29 |
| Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 31 |
| Atodiad 5 – Argymhellion adroddiad cenedlaethol 2014-15 | 34 |
| Atodiad 6 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau Cyngor Gwynedd | 39 |

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn llywodraeth leol.

2 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol trylwyr ym mhob awdurdod ar sail gylchol (unwaith bob pedair blynedd o leiaf ar hyn o bryd). Yn y cyfamser, yn ogystal ag archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant, bydd Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn olrhain datblygiadau ac yn cyflawni gwaith asesu pellach sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaeth â phob awdurdod.

3 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Gwynedd (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'i fath ym mis Ebrill 2014. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a llythyrau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef; Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn y Cyngor gan reoleiddwyr perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

4 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi 'Casgliad Cyffredinol' yn yr adroddiad hwn (gweler tudalen 6), a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

5 Ni ddylid ystyried bod y casgliad hwn yn ddatganiad diffiniol am sefyllfa'r sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

6 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Nodir dyletswyddau a gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Mae ymrwymiad y Cyngor i ddod yn sefydliad sy'n canolbwyntio'n well ar ddinasyddion a'i record o ran cyflawni ei amcanion gwasanaeth ac ariannol yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16

7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi seilio'r casgliad hwn ar y gwaith archwilio perfformiad a wnaed yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a gwaith arolygu'r rheoleiddwyr eraill. Crynhoir isod y prosiectau yr ymgymerwyd â hwy, ynghyd â'r canfyddiadau, yr argymhellion a/neu'r cynigion ar gyfer gwella sy'n deillio ohonynt.

## Gwaith archwilio ac arolygu perfformiad 2014-15

8 Wrth bennu hyd a lled y gwaith i'w gyflawni yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso'r Cyngor ei hun. Ar gyfer 2014-15, ymgymerodd Swyddfa Archwilio Cymru â gwaith asesu gwelliant o dan dair thema: Perfformiad, y Defnydd o Adnoddau, a Llywodraethu. Roedd prosiectau unigol yr ymgymerodd Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr eraill â hwy yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau yr ymgymerwyd â'r gwaith |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad cynllunio ariannol** | Asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a'r ffordd mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion angenrheidiol. | Mis Gorffennaf i fis Rhagfyr 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor** | Asesiad o gydymffurfiaeth y Cyngor â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi ei Gynllun Gwella. | Mis Ebrill i fis Mehefin 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Archwiliad o Adroddiad Perfformiad y Cyngor** | Asesiad o gydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi ei Adroddiad ar Berfformiad. | Mis Hydref i fis Tachwedd 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad yn y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff** | Asesiad o effeithiolrwydd trefniadau rheoli perfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni amcanion a thargedau cenedlaethol a lleol. | Mis Hydref i fis Rhagfyr 2014 |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau yr ymgymerwyd â'r gwaith |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o brosiect Ffordd Gwynedd y Cyngor a gwaith y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** | Asesiad o gynnydd a wnaed o ran sicrhau gwelliannau i drefniadau llywodraethu'r Cyngor a'i amcan o 'rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. | Mis Ebrill 2014 i fis Mawrth 2015 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn ar y Cyd** | Asesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd o ran sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl Gwynedd. | Mis Tachwedd 2014 i fis Mawrth 2015 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant** | Asesiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor o ran diogelu plant. | Mis Ionawr i fis Ebrill 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o drefniadau'r Cyngor i ddosbarthu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn** | Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor i ddyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. | Mis Ionawr i fis Mawrth 2015 |
| **Estyn – Adolygiad o gynllun gwella ôl-arolygiad y Cyngor** | Asesiad o gynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed gan Estyn yn sgil ei harolygiad yn 2013 o Wasanaethau Addysg Plant a Phobl Ifanc y Cyngor. | Mis Mawrth 2014 i fis Chwefror 2015 |
| **AGGCC – Arolygiad o Asiantaeth Gofal Cartref y Cyngor** | Asesiad o effeithiolrwydd yr Asiantaeth o ran darparu gwasanaethau i wahanol grwpiau o gleientiaid sy'n oedolion. | Chwefror 2014 |
| **AGGCC – Arolygiad o ddiogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg** | Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant dros 11 oed sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal y nodwyd eu bod yn agored i niwed a/neu eu bod yn ymddwyn mewn ffordd a allai beri risg. | Mis Ebrill i fis Mai 2014 |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau yr ymgymerwyd â'r gwaith |
|---|---|---|
| **AGGCC – Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2013-14** | Asesiad o berfformiad Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. | Mis Ebrill i fis Hydref 2014 |
| **AGGCC – Arolygiad o Wasanaeth Maethu'r Cyngor** | Asesiad o'r Gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor ac ansawdd bywyd y rhai sydd mewn gofal maeth. | Mis Hydref i fis Tachwedd 2014 |
| **Comisiynydd y Gymraeg – Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor** | Asesiad o effeithiolrwydd y Cynllun o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. | Mis Gorffennaf i fis Awst 2014 |

## Penawdau - crynodeb o'r prif ganfyddiadau

9 Mae'r tabl isod yn crynhoi prif ganfyddiadau'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, a'r rheoleiddwyr eraill, yn 2014-15.

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae perfformiad mewn nifer o wasanaethau'r Cyngor yn cymharu'n dda ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru (paragraffau 13 i 15).<br>**AGGCC** – Gwellodd y cymorth i drigolion sy'n agored i niwed ond mae nifer y bobl hŷn mewn cartrefi gofal yn dal i fod yn rhy uchel (paragraffau 16 i 32).<br>**Estyn** – Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â rhai meysydd o ddarpariaeth addysg sy'n tanberfformio ond mae angen gwelliant pellach mewn eraill gan gynnwys perfformiad Cyfnod Allweddol 4 mewn nifer o ysgolion (paragraffau 33 i 46).<br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Gwellodd cyfraddau ailgylchu gwastraff gan helpu i gyflawni targedau statudol Llywodraeth Cymru ond mae diffyg sicrwydd annibynnol o effeithiolrwydd rhai mentrau rheoli gwastraff (paragraffau 47 i 50).<br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae'r rhan fwyaf o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn sydd ar gael i'r Cyngor wedi cael eu dyrannu ac mae proses effeithiol o sicrhau bod pobl sydd â'r angen mwyaf yn cael cymorth (paragraffau 51 i 54).<br>**Comisiynydd y Gymraeg** – Gwnaed cynnydd pellach i wella gallu Cymraeg staff y Cyngor (paragraffau 55 i 58). |

| | |
|---|---|
| **Y Defnydd o Adnoddau** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Roedd trefniadau rheoli ariannol yn effeithiol (paragraffau 59 i 66). |
| **Llywodraethu** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Parhaodd newidiadau i ddiwylliant y Cyngor a'r ffordd y mae'n rheoli ac yn darparu gwasanaethau i ddatblygu, ond mae'n rhy gynnar i asesu'n llawn eu heffeithiolrwydd o ran gwella gwasanaethau (paragraffau 67 i 71).<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Ar ôl dechrau araf, mae i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd ffocws cliriach ac mae'n gwella ei drefniadau llywodraethu ond mae angen parhau i wneud cynnydd ar y cyflymder a welwyd yn ddiweddar (paragraffau 72 i 78). |
| **Archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi tystysgrifau archwilio yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009 (Atodiadau 2 a 3). |
| **Archwilio cyfrifon** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Ar 28 Tachwedd 2014, rhoddodd yr Archwilydd Penodedig Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Cadarnhaodd, ar 30 Medi 2014, iddo roi barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor, gan gynnwys Cronfa Bensiwn Gwynedd, a chadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a Chronfa Bensiwn Gwynedd (Atodiad 4). |

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- a wneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- b gwneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol i'r Cyngor yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn. Fodd bynnag, mae'n gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o'r argymhellion a wnaed mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014-15 yn Atodiad 5. Mae nifer o gynigon ar gyfer gwella hefyd i'r Cyngor sy'n deillio o'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor wneud y canlynol: | |
| C1 | Adolygu ei arferion gwaith yn erbyn yr argymhellion yn Adroddiadau Cenedlaethol 2014-15 yr Archwilydd Cyffredinol a rhoi'r gwelliannau ar waith. |
| C2 | Cymryd rhan lawnach yng Nghynllun Gwastraff ac Adnoddau Llywodraeth Cymru er mwyn dilysu a/neu wella cynlluniau ailgylchu gwastraff a lleihau costau. |
| C3 | Nodi a/neu ddatblygu dangosyddion perfformiad sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnydd yn erbyn yr amcanion yn Strategaeth Ffordd Gwynedd gael ei fesur. |
| C4 | Sicrhau - ar y cyd â'r partneriaid - fod gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd ddigon o adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, gan gynnwys diweddaru'r Cynllun Integredig Sengl. |

12 At hynny, roedd AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg wedi cynnwys meysydd i'w gwella yn eu hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a roddwyd i'r Cyngor yn ystod 2014-15. Mae'r rhain ar gael yn www.cssiw.org.uk, www.estyn.gov.uk a www.comisiynyddygymraeg.org.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Roedd perfformiad mewn nifer o wasanaethau'r Cyngor yn cymharu'n dda ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru

13 Daeth Adroddiad Gwella Blynyddol 2014 i'r casgliad bod llawer o feysydd gwasanaethau'r Cyngor - fel y'u mesurwyd gan ei ddangosyddion allweddol a Dangosyddion Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru - yn perfformio'n dda. Mae hyn yn wir o hyd. Gwnaeth perfformiad y Cyngor yn 2013-14 wella neu aros yr un fath yn 68.8 y cant o'r dangosyddion. Er bod hyn ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol, pan oedd 71.9 y cant o'r dangosyddion wedi gwella neu wedi aros yr un fath, dengys i'r Cyngor barhau i wneud gwelliannau mewn llawer o'u meysydd gwasanaeth yn 2013-14.

14 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg cenedlaethol er mwyn cael barn pobl sy'n byw yng Nghymru ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau lleol. Dangosodd arolwg 2013-14 fod 63.6 y cant o drigolion Gwynedd yn credu bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae hyn yn uwch na ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 57 y cant a'r pedwerydd canlyniad gorau ymhlith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn well na chyfartaledd Cymru sef 57.1 y cant.

15 Ategwyd canlyniadau'r arolwg cenedlaethol gan safbwyntiau Panel Trigolion Gwynedd gyda 63 y cant yn fodlon ar y ffordd yr oedd y Cyngor wedi darparu ei wasanaethau yn 2013-14 o gymharu â 58 y cant yn y flwyddyn flaenorol. At hynny, credai 54 y cant o'r Panel i'r Cyngor gynnig gwasanaethau gwerth am arian o gymharu â 50 y cant yn y flwyddyn flaenorol.

## Roedd cymorth i drigolion sy'n agored i niwed wedi gwella ond mae nifer y bobl hŷn mewn cartrefi gofal yn dal i fod yn rhy uchel

16 Daeth adroddiad 2013-14 AGGCC ar Werthuso Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor i'r casgliad bod gwelliant graddol o ran darparu gofal cymdeithasol yn y Sir yn ystod 2013-14 gyda mentrau newydd yn hyrwyddo annibyniaeth mewn gwasanaethau oedolion, cynnydd parhaus o ran darparu gwasanaethau plant a chanlyniadau cadarn i blant sy'n derbyn gofal.

17 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol yn y tymor canolig o ran darparu ei wasanaethau gofal cymdeithasol. Rhagwelir y bydd cyllideb gwasanaethau oedolion yn gostwng dros £6 miliwn o £40.6 miliwn yn 2014-15 i £34.4 miliwn yn 2017-18. Bydd gostyngiad mor fawr mewn adnoddau yn gofyn am newidiadau i'r ffordd y caiff gofal a chymorth i oedolion sy'n agored i niwed eu comisiynu a'u darparu. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ymhellach wasanaethau ataliol sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac sydd wedi'u cynllunio, eu datblygu a'u gwerthuso ar y cyd gan y Cyngor, defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd, gofalwyr a chymunedau.

18 Er gwaethaf yr heriau a gyflwynwyd gan y sefyllfa ariannol, parhaodd y Cyngor i fuddsoddi yn y broses o ddatblygu gwasanaethau newydd i bobl hŷn ac oedolion ag anableddau dysgu. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

a adeiladu saith uned i bobl sydd ag anableddau dysgu ym Mhant yr Eithin, Harlech;

b agor cyfleuster gofal ychwanegol 40 gwely i bobl hŷn ym mis Tachwedd 2014 ym Mangor; a

c datblygu'r datblygiad tai gofal ychwanegol ym Mhorthmadog.

19 Gwnaed cynnydd pellach hefyd yn y broses o ddatblygu trefniadau cydweithio â phartneriaid i ddarparu gwasanaethau oedolion. Parhaodd y Tîm Trawsnewid Integredig, sy'n cynnwys uwch swyddogion o'r Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r trydydd sector, i gyflwyno gwasanaethau a mentrau newydd gan gynnwys y canlynol:

a rhoi arferion gwaith newydd ar waith yn y Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol (Rhyddhau Cleifion) a Ffisiotherapyddion, a oedd yn cynnwys staff yn gweithio ar benwythnosau ac felly'n darparu gwasanaeth saith diwrnod yr wythnos yn y meysydd hyn;

b adolygiad o feddyginiaethau risg uchel yn y gymuned gan y Gwasanaeth Fferylliaeth;

c secondio uwch aelod o staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i helpu i integreiddio gwasanaethau ymhellach; a

ch llunio cynlluniau i wella cydweithio ymhellach drwy gydleoli staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gwella cydweddoldeb a chyfathrebu rhwng systemau TGCh.

20 Parhaodd y mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol i fod yn dda gyda chefnogaeth dda gan Dîm Cynghori ac Asesu effeithiol. Ym mis Rhagfyr 2013, comisiynodd y Cyngor ymgynghorydd allanol i archwilio ei Wasanaeth Asesu Oedolion a Rheoli Gofal. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Gwasanaeth yn ymatebol ac yn gadarn, ar y cyfan. Fodd bynnag, nododd hefyd rai gwendidau gan gynnwys defnydd anghyson o ganlyniadau i fesur perfformiad, tanddatblygu prosesau gweithio amlddisgyblaethol ac oedi cyn darparu cyfarpar a gwasanaethau cynnal a chadw yng nghartrefi pobl.

21 Parhaodd perfformiad y Cyngor o ran adolygu cynlluniau gofal oedolion i wella, ac ar 85.3 y cant, mae bellach yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 81.1 y cant. Perfformiodd y Cyngor yn dda hefyd o ran osgoi oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Roedd cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd yn 1.5, sy'n sylweddol well na chyfartaledd Cymru o 4.6.

22 Parhaodd y Cyngor i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn gan ddarparu 462 o becynnau ail-alluogi yn ystod y flwyddyn. Nododd adolygiad mewnol o'r Gwasanaeth Ailalluogi fod angen cymorth parhaus ar lai na hanner y rhai a oedd wedi cael pecyn ac mai dim ond chwech y cant a oedd angen cymorth pellach o fewn dwy flynedd.

23 Roedd y Cyngor yn gweithredu Gwasanaeth Lleoli Oedolion effeithiol gyda rheolwr y Gwasanaeth yn ennill gwobr aur Fforwm Gofal Cymru yng nghategori Arferion Da wrth Reoli Gofal Cymdeithasol. Enillodd aelodau eraill o staff wobrau aur ac efydd yng nghategori Hyrwyddo Bywydau Bodlon.

24 Roedd arolygiad AGGCC o Wasanaeth Gofal Cartref y Cyngor yn gadarnhaol ar y cyfan gyda defnyddwyr yn gwneud sylwadau ffafriol ar ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dal i redeg nifer fawr o wasanaethau preswyl i bobl hŷn a fydd yn gynyddol anos i'w cynnal yn y tymor hir. Cyfradd y bobl hŷn (65 oed a throsodd) a gafodd gymorth gan yr awdurdod mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed a throsodd ar 31 Mawrth 2014 oedd 25.6. Roedd hyn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 19.8, a hon oedd y gyfradd uchaf ond un ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru. Cyfradd y bobl hŷn a gafodd gymorth gan y Cyngor yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed a throsodd ar 31 Mawrth 2014 oedd 46.2. Roedd hyn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 74.4, a hon oedd y gyfradd isaf ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru.

25 Parhaodd y Cyngor i wella ei wasanaethau i bobl ifanc, plant a theuluoedd gan gynnwys y canlynol:

- a Rhoi'r rhaglen 'Pan fydda i'n Barod' ar waith i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r Rhaglen yn estyn hyd lleoliadau ac yn helpu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i hyfforddi neu ennill cymwysterau.
- b Cynllun 'Gyda'n Gilydd' a gefnogodd 509 o deuluoedd cyn bod angen cymorth gwasanaethau cymdeithasol arnynt.
- c Datblygu'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd i ganolbwyntio ar ddiogelu plant mewn teuluoedd lle mae gan y rhieni broblemau alcohol a/neu gyffuriau.

26 Roedd y perfformiad o ran darparu nifer o wasanaethau plant yn dda. Cafodd dros 99 y cant o achosion o atgyfeirio plant at y Cyngor benderfyniad o fewn diwrnod. Cafodd dros 47 y cant o'r atgyfeiriadau eu dyrannu i weithiwr cymdeithasol ar gyfer asesiad cychwynnol. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 42.9 y cant. Cwblhaodd y Cyngor 67 y cant o asesiadau cychwynnol o blant o fewn saith diwrnod gwaith, a bu gostyngiad yng nghyfran y plant a oedd yn cael eu hatgyfeirio o 30 y cant yn 2012-13 i 26.6 y cant yn 2013-14.

27 Daeth arolygiad AGGCC o drefniadau'r Cyngor ar gyfer diogelu a chynllunio gofal plant sy'n derbyn gofal i'r casgliad bod gan weithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr ddealltwriaeth dda o'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda hwy, gan gynnwys gwybodaeth am yr hyn a oedd yn eu gwneud yn agored i niwed ac ymddygiad a oedd yn peri risg. Roedd prosesau atgyfeirio a rhannu gwybodaeth rhwng staff yn dda. Roedd cydberthnasau gweithredol rhwng timau ac asiantaethau partner yn cefnogi prosesau cyfathrebu effeithiol ac amserol.

28 Bu i nifer y plant a oedd yn derbyn gofal gan y Cyngor ostwng o 200 yn 2012-13 i 185 yn 2013-14. Roedd yr allbynnau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn gyson gadarn. Parhaodd y Cyngor i sicrhau sefydlogrwydd lleoliadau ac roedd cymwysterau'r plant yr oedd yn gofalu amdanynt ymhlith y gorau yng Nghymru. Roedd gan bob person ifanc yng ngofal y Cyngor gynllun llwybr a chynghorydd personol. Bu gwelliant ym mherfformiad y Cyngor o ran amseroldeb adolygiadau o gynlluniau gofal plant sy'n derbyn gofal gyda 94.3 y cant yn cael eu cynnal o fewn y terfynau amser statudol yn 2013-14, o gymharu â 75.4 y cant yn 2012-13. Nododd y bobl ifanc y cysylltwyd â hwy yn ystod yr arolygiad eu bod yn cael eu hannog i fod yn bresennol yn eu hadolygiadau a bod eiriolaeth ar gael os gofynnwyd am hynny. Fodd bynnag, canfu'r arolygiad fod adolygiadau yn canolbwyntio gormod ar ddigwyddiadau yn y byrdymor yn hytrach nag ar ganlyniadau hirdymor a bod ansawdd cynlluniau gofal yn amrywio. Hefyd, nododd pobl ifanc rwystredigaeth ynglŷn â diffyg eglurder o ran awdurdod dirprwyedig wrth ofyn am ganiatâd ar gyfer teithiau ysgol ac aros dros nos.

29 Nododd arolygiad AGGCC fod angen i'r Cyngor ddatblygu mynediad plant sy'n derbyn gofal at wasanaethau iechyd sylfaenol a llety camu ymlaen ymhellach. Mae cyfrifoldebau rhianta corfforaethol y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu defnyddio gofal iechyd sylfaenol. Bu gostyngiad yng nghyfran y plant a oedd wedi'u cofrestru â meddyg teulu o fewn 10 diwrnod ar ôl dod yn gyfrifoldeb y Cyngor o 92.5 y cant yn 2012-13 i 78.3 y cant yn 2013-14. Er i gyfran yr asesiadau iechyd o blant sy'n derbyn gofal gynyddu i 46 y cant yn 2013-14 o 31 y cant yn 2012-13 roedd hyn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 81 y cant.

30 Daeth arolygiad 2013 Estyn o Wasanaethau Addysg Plant a Phobl Ifanc y Cyngor i'r casgliad, ar lefel gorfforaethol, nad oedd unrhyw ddealltwriaeth glir o weithdrefnau i sicrhau bod pob aelod o staff y Cyngor yn deall yn glir eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn a diogelu plant. O ganlyniad, nid oedd trefniadau diogelu'r Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol ac roeddent yn peri gofid. Fodd bynnag, canfu ymweliad dilynol gan Estyn yn 2014-15 fod cynnydd wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Roedd Polisi Diogelu corfforaethol wedi cael ei fabwysiadu ac roedd ymarfer ailstrwythuro ar lefel pennaeth gwasanaeth, gan gynnwys creu swydd Pennaeth Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd, wedi atgyfnerthu gallu'r Cyngor i lunio, datblygu a rheoli ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc.

31 Cadarnhaodd gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2014 ganfyddiadau arolygiad AGGCC ac ymweliad dilynol Estyn, gan ddod i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau i ddiogelu plant yn addas at y diben ar y cyfan ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.

32 Daeth arolygiad AGGCC o Wasanaeth Maethu'r Cyngor i'r casgliad bod plant a phobl ifanc yn cael lleoliadau diogel lle roedd eu hanghenion yn cael eu diwallu'n effeithiol. Nododd arolygiad AGGCC o Drws y Nant, cartref plant a gomisiynwyd gan y Cyngor, amgylchedd a oedd yn canolbwyntio'n gadarn iawn ar y person lle y nododd pobl ifanc fod staff yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

## Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â rhai meysydd o ddarpariaeth addysg sy'n tanberfformio ond mae angen gwelliant pellach mewn eraill gan gynnwys perfformiad Cyfnod Allweddol 4 mewn nifer o ysgolion

33 Daeth arolygiad 2013 Estyn o Wasanaeth Addysg Plant a Phobl Ifanc y Cyngor i'r casgliad bod angen i Estyn fonitro cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn sgil ei arolygiad. Cynhaliwyd yr ymweliadau dilynol hyn gan Estyn yn ystod 2014-15. Daeth llythyr Estyn i'r Cyngor, a gyhoeddwyd ar ôl ei ymweliad terfynol, i'r casgliad bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol o ran mynd i'r afael â gwendidau yn ei drefniadau i ddiogelu plant (gweler paragraff 30), ac o ran ei argymhellion eraill i'w gwneud yn bosibl iddo gael ei dynnu o gategori 'monitro Estyn'.

34 Mae paragraffau 35 i 46 yn crynhoi gwerthusiad Estyn o gynnydd y Cyngor o ran pob un o'r argymhellion yn adroddiad arolygu 2013. Nodir yr argymhellion isod.

**Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 trwy dargedu adrannau sy'n tanberfformio mewn ysgolion uwchradd sy'n perfformio yn wael yn fwy cadarn**

35 Canfu Estyn fod y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol. Nododd adroddiad arolygu Estyn fod perfformiad TGAU mewn gormod o ysgolion uwchradd, dros y pedair blynedd cyn yr arolygiad, yn y chwarter isaf yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion perfformiad o gymharu ag ysgolion mewn rhannau eraill o Gymru sydd â lefelau tebyg o amddifadedd. Ar ôl yr arolygiad, nododd y Cyngor chwe ysgol uwchradd lle roedd perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 yn broblem. Cytunwyd ar gynllun gweithredu ar gyfer pob ysgol ar ôl cyfarfodydd â'r pennaeth a chadeirydd y corff llywodraethu.

36 Yn ystod ei ymweliadau dilynol canfu Estyn fod y Cyngor wedi cyflwyno nifer o fentrau i gefnogi perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4. Roedd rhwydwaith wedi'i sefydlu ar gyfer timau rheoli'r ysgolion a oedd yn cael ei gefnogi a'i hwyluso gan y Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol. Er mwyn diwallu anghenion penodol adrannau a oedd yn tanberfformio yn yr ysgolion targed, comisiynodd y Cyngor gymorth allanol. Gweithiodd cyn-ddirprwy bennaeth gydag un ysgol ar lythrennedd a chynorthwyodd cyn-gynghorydd mathemateg ysgol arall. Roedd y Cyngor wedi datblygu trefniadau addawol er mwyn gwneud defnydd gwell o gymorth ysgol i ysgol a pharu ysgolion ac adrannau i nodi a hyrwyddo arfer da. Fodd bynnag, ar gam cynnar y mae'r trefniadau hyn ac mae'n rhy gynnar i asesu eu heffeithiolrwydd.

37 Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau ym mis Medi 2013 ar Ansawdd Addysg yn y Sir, sefydlodd y Cyngor y Prosiect Hybu Ansawdd yn y sector uwchradd. Mae'r Prosiect yn ymwneud ag amrywiaeth eang o feysydd y nodwyd bod angen eu gwella. Ym mis Ionawr 2014, secondiwyd dirprwy bennaeth yn rhan amser i arwain y Prosiect. Yr arwyddion cynnar yw bod ei gwaith wedi gwneud cyfraniad effeithiol i wella arweinyddiaeth a safonau mewn ysgolion uwchradd.

38 Yn 2013, gwnaeth y Cyngor fodloni neu ragori ar bob un o ddisgwyliadau wedi'u modelu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd hyn yn cynnwys cyrraedd y perfformiad disgwyliedig ar gyfer pum gradd TGAU da neu fwy a oedd yn cynnwys mathemateg a Chymraeg neu Saesneg am y tro cyntaf ers pum mlynedd. Rhwng 2012 a 2014, roedd y gwelliant yng nghanran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r dangosydd hwn yn well na'r cyfartaledd yng Nghymru ym mhob un o'r chwe ysgol a dargedwyd gan y Cyngor ar ôl arolygiad 2013. Fodd bynnag, ym marn Estyn roedd gormod o ysgolion yn y chwarter isaf ar gyfer y rhan fwyaf o brif ddangosyddion Cyfnod Allweddol 4.

**Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio**

39 Canfu Estyn fod y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol. Mae'r system o fonitro a herio perfformiad ysgolion wedi cael ei hatgyfnerthu ers yr arolygiad. Mae'r swyddogion y Cyngor a'r aelod cyfrifol o'r Cabinet yn cyfarfod bob pythefnos i drafod materion addysg gan gynnwys ysgolion sy'n tanberfformio. Mae penaethiaid ysgolion sy'n tanberfformio yn mynychu cyfarfodydd â'r Pennaeth Gwasanaethau Addysg a'r aelod Cabinet i drafod cynlluniau gwella ysgolion. Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae swyddogion y Cyngor wedi ymweld â dwy ysgol a oedd yn tanberfformio. Roedd un o'r ymweliadau hyn yn dilyn arolygiad o'r ysgol gan Estyn. Mae'r ddwy ysgol wedi gwneud cynnydd gwella priodol hyd yn hyn.

**Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd**

40 Canfu Estyn fod y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth. Yn 2011-12, roedd presenoldeb yn hanner yr ysgolion uwchradd yng Ngwynedd yn chwarter isaf ysgolion tebyg yng Nghymru. Roedd pedair ysgol wedi bod yn y chwarter isaf am bedair blynedd yn olynol ac un ysgol am dair blynedd. Daeth yr arolygiad i'r casgliad bod y Cyngor wedi bod yn araf yn mynd i'r afael â phresenoldeb cyson isel mewn rhai o'i ysgolion uwchradd.

41 Ers yr arolygiad, mae'r Cyngor wedi gwella ei gydweithrediad â thimau rheoli ysgolion uwchradd er mwyn annog presenoldeb ac ymdrin yn fwy effeithiol ag absenoldeb. Gwnaed penodiad dros dro i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n effeithiol. Roedd y Cyngor hefyd wedi cynnal cyfarfodydd â phenaethiaid ysgolion uwchradd i adolygu cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion. O ganlyniad, lluniodd y Cyngor ganllawiau clir ac ymarferol ar gyfer camau gweithredu mewn ysgolion. Mae Swyddogion Lles Addysg bellach wedi'u lleoli mewn ysgolion yn hytrach nag mewn swyddfa ganolog ac mae'n ymateb i achosion o absenoldeb ar sail wythnosol.

42 Mae'r gyfradd bresenoldeb ym mhob ysgol uwchradd yn y Sir wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae tua 25 y cant o ysgolion uwchradd bellach ymhlith chwater isaf ysgolion tebyg yng Nghymru o gymharu â 50 y cant yn 2011-12.

**Gwella ansawdd hunanarfarnu, a'r modd y caiff cynlluniau gwella a gweithdrefnau rheoli perfformiad eu rhoi ar waith yn yr Adran Addysg**

43 Canfu Estyn fod y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol. Ar y cyfan, mae gweithdrefnau rheoli perfformiad, hunanarfarnu a chynlluniau gwella wedi cael eu hatgyfnerthu ers yr arolygiad. Roedd llinellau atebolrwydd o'r Gwasanaeth i'r Cyngor yn gliriach ac roedd cyswllt mwy uniongyrchol rhwng blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau'r gwasanaeth.

44 Er gwaethaf y gwelliannau hyn, nid oedd y wybodaeth a roddwyd i uwch swyddogion ac aelodau bob amser yn nodi gwendidau rheoli a pherfformiad yn gywir. Er enghraifft, ni nododd adroddiadau fethiant y Gwasanaeth i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer arweinyddiaeth a rheoli mewn uned cyfeirio disgyblion lle roedd angen mesurau arbennig ym marn Estyn.

**Parhau i roi cynlluniau ar waith i leihau nifer y lleoedd gwag**

45 Canfu Estyn fod y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth. Ers yr arolygiad mae'r Cyngor wedi mynd ati'n effeithiol i weithredu nifer o flaenoriaethau yn ei Strategaeth Addysg Gynradd Ragorol i Blant yng Ngwynedd. Cafodd 376 o leoedd gwag eu dileu drwy weithredu cynllun i ad-drefnu ysgolion yn ardal y Bala a chau ysgol gynradd yn nalgylch Botwnnog. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar gynllun i uno tair ysgol gynradd yn Arfon ym mis Medi 2015 a'i fabwysiadu, a bydd yn dileu 97 o leoedd gwag. Bydd cynnig i ailfodelu Ysgol Glancegin ym Mangor yn dileu tua 100 o leoedd gwag.

46 Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal ymgynghoriad ar gynllun i ad-drefnu darpariaeth addysgol yn nalgylch Dolgellau ac mae ar yr ail gam o ad-drefnu ysgolion yn ardal y Bala. Os caiff y cynlluniau eu gwireddu, caiff tua 650 o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd ac uwchradd eu dileu erbyn mis Medi 2017.

## Gwellodd cyfraddau ailgylchu gwastraff gan helpu i gyflawni targedau statudol Llywodraeth Cymru ond mae diffyg sicrwydd annibynnol o effeithiolrwydd rhai mentrau rheoli gwastraff

47 Yn hanesyddol, bu cyfradd ailgylchu'r Cyngor ar ei hôl hi o'i chymharu â llawer o gynghorau eraill yng Nghymru ond mae perfformiad wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2013-14, cafodd 54 y cant o wastraff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, o gymharu â 51.5 y cant yn 2012-13.

48 Mae'r Cyngor wedi rhoi nifer o gynlluniau ar waith i wella ei gyfradd ailgylchu, cyflawni targedau ailgylchu cenedlaethol, cyflawni ei lwfans o ran tirlenwi, ac osgoi cosbau ariannol posibl gan Lywodraeth Cymru. Mae'r penderfyniad i gasglu gwastraff gweddilliol bob tair wythnos yn Nwyfor ym mis Hydref 2014 wedi gwella'r gyfradd ailgylchu i tua 57 y cant ac, o gael ei weithredu'n llawn drwy'r Sir gyfan, mae'n debygol o sicrhau cyfradd o fwy na 60 y cant. Golyga hyn y dylai'r Cyngor gyflawni'r targed statudol o ailgylchu 58 y cant o wastraff trefol erbyn 2015-16 ac y dylai fod mewn sefyllfa dda i gyflawni'r targed o 64 y cant erbyn 2019-20.

49 Fodd bynnag, erys targed statudol 2024-25, sef ailgylchu 70 y cant o wastraff trefol, yn heriol. Dylai mentrau arfaethedig eraill, gan gynnwys un ar y cyd â chynghorau eraill yng Nghymru i drin gwastraff gweddilliol mewn gwaith troi gwastraff yn ynni o 2019, helpu i wneud targed 2024-25 yn haws ei gyflawni, os cânt eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi bod cyfradd uwch o gasglu gwastraff bwyd yn y Sir yn hanfodol i wella ei berfformiad ailgylchu ymhellach a lleihau faint o wastraff y mae'n ei anfon i safleoedd tirlenwi. Nid yw tua hanner trigolion y Sir yn ailgylchu eu gwastraff bwyd neu gallent ailgylchu rhagor. Mae'r Cyngor eisoes yn defnyddio 99.4 y cant o'i lwfans tirlenwi ac felly mae'n wynebu risg y bydd yn mynd y tu hwnt i'r lwfans a chael cosbau ariannol yn y dyfodol. Os na fydd y Cyngor yn dargyfeirio mwy o wastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi na'r hyn a gyflawnwyd yn 2013-14, gallai wynebu cosb ariannol o £158,000 yn 2014-15, a chosb arall o £314,600 yn 2015-16.

50 Roedd trefniadau rheoli perfformiad yn y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff yn gadarn ac yn effeithiol. Mae rheolwyr yn monitro cost a pherfformiad cynlluniau ailgylchu gwastraff yn fanwl ac yn rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Arweinydd Portffolio, y Cabinet a Phwyllgorau Craffu. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn cymryd rhan mewn asesiadau annibynnol o berfformiad ei weithgareddau rheoli gwastraff amrywiol fel mater o drefn. Cyfyngedig yw ei gyfranogiad yn y Rhaglen Newid Gydweithredol a gyflawnir gan Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen yn rhoi cyngor am ddim a chymorth technegol i gynghorau sy'n cymryd rhan er mwyn cynyddu faint o wastraff a ailgylchir a lleihau costau. Pe bai'r Cyngor yn cymryd rhan lawnach yn y Rhaglen gallai gynnig 'gwiriad iechyd' annibynnol defnyddiol er mwyn sicrhau bod y rhannau gwahanol o'r Gwasanaeth yn gweithio'n gyson â'i gilydd a chael y perfformiad gorau posibl.

## Mae'r rhan fwyaf o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn wedi cael eu dyrannu ac mae proses effeithiol o sicrhau bod pobl sydd â'r angen mwyaf yn cael cymorth

51 Cyflwynodd Deddf Diwygio Lles 2012 newid mawr i'r ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu a'u dosbarthu a chaiff effaith sylweddol ar lawer o ddinasyddion. Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU ar raglen ddiwygio a fydd yn arwain at gyflwyno'r Credyd Cynhwysol fesul cam rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Un o brif nodweddion cynlluniau Llywodraeth y DU yw'r newidiadau i Fudd-dal Tai, sy'n ceisio lleihau gwariant blynyddol tua £2.3 biliwn. Bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd miliynau o aelwydydd ym Mhrydain Fawr yn cael llai o fudd-daliadau.

52 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau yn rheoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. Adolygodd yr adroddiad y broses o reoli a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan gynghorau yng Nghymru a daeth i'r casgliad fod anghysondebau a gwendidau sylweddol yn y broses o ddyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hyn. Gwnaethom waith dilynol mewn cynghorau unigol.

53 Canfu ein hadolygiad fod Cyngor Gwynedd yn ei gwneud yn hawdd i gleientiaid sy'n agored i niwed wneud cais am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Roedd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau dwy ddogfen: ffurflen gais dwy dudalen syml a chlir a phroffil incwm a gwariant dwy dudalen. Roedd y ddwy ffurflen yn syml ac yn hawdd eu deall. At hynny, roedd y Cyngor wedi datblygu proses atgyfeirio gyda sefydliadau eraill gan gynnwys Shelter Cymru, Cyngor ar Bopeth ac undeb credyd lleol, ac roedd y ffocws hwn ar y cleient wedi annog pobl a oedd yn agored i niwed i wneud cais.

54 Erbyn diwedd mis Tachwedd 2014, roedd y Cyngor wedi talu £710,055 o'r swm o £733,297 a ddyrannwyd iddo gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Roedd gan y Cyngor system ar waith a oedd yn monitro gwariant Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn effeithiol. Roedd y Cyngor hefyd yn monitro nifer y bobl roedd wedi'u cynorthwyo, gan gynnwys landlordiaid, a faint o gyllideb oedd ar gael i roi cymorth i ymgeiswyr. Ym mis Chwefror 2015, lluniwyd polisi ar gyfer blaenoriaethu'r ffordd y dyrennir Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a ddylai helpu'r Cyngor i fesur effaith ei waith ac asesu a yw'n helpu'r rhai sydd angen cymorth ariannol fwyaf yn effeithiol.

## Mae cynnydd pellach wedi'i wneud i wella gallu Cymraeg staff y Cyngor

55 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar ddiwedd 2014. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a bydd yn gorfodi safonau drwy ymchwilio i gwynion statudol, gwneud penderfyniadau ar ymchwiliadau statudol, cynnal cofrestr o gamau gorfodi, a rhoi cosbau sifil lle y bo'n briodol.

56 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae'n ofynnol i bob cyngor ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

57 Nododd y Comisiynydd, ar ôl cynnydd Cynllun Hyrwyddwyr Iaith Canolfannau Hamdden, fod y Cyngor yn bwriadu sefydlu cynllun tebyg yn ei gartrefi preswyl. Roedd y cymalau sy'n cyfeirio at y defnydd o'r Gymraeg mewn cytundebau gofal cymdeithasol i bobl hŷn wedi cael eu hatgyfnerthu. Enillodd Tîm Broceriaeth Uned Contractau'r Cyngor wobr Gwireddu'r Geiriau am helpu i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg gan weithwyr gofal cartref.

58 Gwnaeth y Cyngor hefyd gydweithredu â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i adolygu canllawiau iaith Gymraeg partneriaeth Derwen sydd, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant.

# Y Defnydd o Adnoddau

## Roedd y trefniadau rheoli ariannol yn effeithiol

59 Roedd y Cyngor yn adolygu ei Strategaeth Ariannol yn rheolaidd ac wedi gwneud rhagdybiaethau rhesymol ynglŷn â nifer o ffactorau amrywiadwy gan gynnwys lefel debygol y Grant Cynnal Refeniw. Fel rhan o'r broses hon, ystyriodd y Cyngor briodoldeb ei gronfeydd wrth gefn a'i falansau.

60 Roedd gan y Cyngor systemau rhagweld ariannol, pennu cyllidebau a rheoli effeithiol ar waith. Rhwng 2011-12 a 2013-14, rhagwelodd y Cyngor ei ddiffyg cyllidebol blynyddol yn gywir a llwyddodd i nodi nifer o arbedion er mwyn cau'r bwlch rhwng incwm a gwariant. Mae'r trefniadau rheoli cyllidebol yn seiliedig ar ganllawiau a threfniadau monitro manwl ar lefel swyddogion, aelodau a staff gweithredol.


61 Roedd cynlluniau i sicrhau arbedion 2014-15 y Cyngor yn addas at y diben, yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni. Roedd cynlluniau arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu datblygu ar gyfer 2014-15 ym mhob un o adrannau'r Cyngor. Roedd y cynlluniau'n cynnwys disgrifiadau clir o ble y câi'r arbedion eu gwneud. Roedd gweithdrefnau cadarn ar gyfer mesur ac olrhain arbedion wedi cael eu sefydlu ac roedd adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i Banel Arbedion y Cyngor.

62 Yn y tymor canolig, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen iddo wneud arbedion ychwanegol gwerth o leiaf £34 miliwn rhwng 2014 a 2018. Wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2015-16, nododd y Cyngor arbedion o £8.6 miliwn, cynyddodd y Dreth Gyngor 4.5 y cant ac ariannodd y diffyg o £2.018 miliwn a oedd yn weddill o falansau cyffredinol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi arbedion effeithlonrwydd pellach ac yn blaenoriaethu toriadau posibl i wasanaethau er mwyn adlewyrchu safbwyntiau pobl Gwynedd (gweler paragraff 69).

63 Mae Arddangosyn 1 isod yn cymharu gwariant refeniw gros arfaethedig y Cyngor (yn glir o incwm) y pen o'r boblogaeth dros y pedair blynedd diwethaf â'r cyfartaledd i gynghorau ledled Cymru.

64 Dengys y graff fod gwariant y pen yng Ngwynedd dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r tair blwyddyn cyn 2014-15. Mae hyn yn adlewyrchu, o leiaf yn rhannol, y ffaith ei bod yn fwy costus darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig megis Gwynedd nag ydyw mewn ardaloedd mwy poblog. Fodd bynnag, roedd y gwariant arfaethedig ar gyfer 2014-15, sef £2,330 y pen, ond ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o £2,312 y pen. Ers 2011-12, rydym yn cyfrifo bod gwariant y pen wedi gostwng wyth y cant mewn termau real yng Ngwynedd o gymharu â gostyngiad o dri y cant ar gyfartaledd ledled Cymru.

Arddangosyn 1




*Ffynhonnell: Stats Cymru*

65 Rydym yn cynnwys yn Atodiad 6 ychydig o wybodaeth am y ffordd y dosbarthwyd adnoddau ariannol y Cyngor yn 2013-14 ac am dueddiadau yng ngwariant refeniw gros ac incwm y Cyngor ers 2008-09. Daw'r data o Ddatganiadau Cyfrifol y Cyngor. Rydym hefyd yn cynnwys gwybodaeth am dueddiadau o ran nifer y staff a gyflogir gan y Cyngor, gan ddefnyddio'r data a gyflwynwyd gan y Cyngor i Meincnodi Cymru.

66 Fel yn achos pob cyngor, mae cost addysg a gofal cymdeithasol yn gyfran uchel o wariant y Cyngor. Daeth bron hanner ei incwm gros ar gyfer 2013-14 o'r Grant Cynnal Refeniw (38.7 y cant) a'r Ardrethi Annomestig (10.2 y cant). Mae'r rhain yn ffynonellau o incwm nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth drostynt, ac mae'r Grant Cynnal Refeniw yn gostwng. Yng Ngwynedd, roedd ffioedd a thaliadau a godwyd yn cyfrif am 33.3 y cant o incwm y Cyngor ar gyfer 2013-14, dipyn y is na chyfartaledd Cymru, sef 37 y cant, tra bod incwm o'r Dreth Gyngor, sef 17.7 y cant, yn gyfran o gyfanswm incwm a oedd yn uwch na'r cyfartaledd.

# Llywodraethu

## Parhaodd newidiadau i ddiwylliant y Cyngor a'r ffordd y mae'n rheoli ac yn darparu gwasanaethau i ddatblygu, ond mae'n rhy gynnar i asesu'n llawn eu heffeithiolrwydd o ran gwella perfformiad

67 Bwriad prif raglen trawsnewid llywodraethu corfforaethol y Cyngor, Ffordd Gwynedd, yw gwella ei ddiwylliant a'i drefniadau llywodraethu a 'rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud'. Mae Ffordd Gwynedd - sy'n cael ei harwain gan y Prif Weithredwr a'i monitro gan y Panel Cyflawni Gofal Cwsmeriaid a Thrawsnewid - yn cynnwys naw prosiect gwella gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth, ymgysylltu â'r cyhoedd a rheoli perfformiad.

68 Cyflymodd y broses o weithredu amrywiol elfennau o raglen Ffordd Gwynedd yn ystod 2014. Cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth a hyfforddiant i reolwyr a staff rheng flaen yn ystod yr haf a chynhaliwyd cyfarfod o'r Coleg Rheoli – a arweinir gan y Prif Weithredwr – tua diwedd y flwyddyn. Cafodd Strategaeth ddrafft Ffordd Gwynedd ei pharatoi a dechreuwyd ar dri adolygiad blaenoriaeth – a elwid yn 'ymyriadau' – yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Adnoddau Dynol a Chynnal a Chadw Adeiladau. Disgwylir i fuddiannau, gan gynnwys gwell canlyniadau gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd gael eu nodi a'u gwireddu erbyn mis Mawrth 2016.

69 Datblygodd y prosiect datblygu arweinyddiaeth yn ôl y drefn a chynhaliwyd y gweithdai cyntaf yn ystod mis Hydref 2014. Methwyd â chyflawni targedau a cherrig milltir ar gyfer y prosiect ymgysylltu ond y prif reswm dros hyn oedd bod adnoddau yn cael eu dargyfeirio i gefnogi menter Her Gwynedd (y Sgwrs Fawr) a gynhaliwyd i ymgynghori a'r cyhoedd ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a wynebir gan y Cyngor. Mae Her Gwynedd (Y Sgwrs Fawr) yn enghraifft dda o'r ffordd y mae ymgysylltu a deialog â'r cyhoedd er mwyn pennu polisïau a blaenoriaethu'r Cyngor – un o brif nodau Ffordd Gwynedd – yn datblygu.

70 Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd Ffordd Gwynedd yn llawn, mae'r cynnydd hyd yn hyn yn addawol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cyngor yn nodi nifer fach o fesurau perfformiad lefel uchel y gellir eu defnyddio i ddangos bod y gwelliannau arfaethedig yn cael eu cyflawni. Mae'r gofyniad i bennu mesurau perfformiad wedi'i gynnwys yn Strategaeth ddrafft Ffordd Gwynedd ond nid yw'r rhain wedi cael eu datblygu'n llawn eto.

71 Aeth gwaith grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu'r Cyngor rhagddo'n dda hefyd yn ystod y flwyddyn. Sefydlwyd y Grŵp yn 2012-13 er mwyn helpu i sefydlu gwerthusiad mwy ffurfiol a thrylwyr o elfennau amrywiol fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, asesodd y Grŵp bwysigrwydd ac effeithiolrwydd pob un o'r 31 o elfennau'r fframwaith er mwyn helpu i gyflawni amcanion y Cyngor. Ymhlith yr elfennau a nodwyd gan y Grŵp fel y rhai yr oedd angen eu gwella fwyaf roedd cydweithredu â phartneriaid i ddarparu gwasanaethau, ymgysylltu â'r cyhoedd a rheoli perfformiad. Mae pob un o'r meysydd gwella hyn â blaenoriaeth uchel wedi'u cynnwys yn un neu fwy o brosiectau rhaglen Ffordd Gwynedd.

## Ar ôl dechrau araf, mae i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ffocws cliriach ac mae'n gwella ei drefniadau llywodraethu ond mae angen parhau i wneud cynnydd ar y cyflymder a welwyd yn ddiweddar

72 Sefydlwyd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLL) ar y cyd ym mis Ebrill 2013, ar ôl uno'r ddau hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Sefydlwyd Uned Bartneriaeth newydd, wedi'i lleoli yng Nghyngor Gwynedd, i gydgysylltu gweithgarwch y BGLl yn y ddwy sir. Fodd bynnag, cafwyd anawsterau yn ystod misoedd cyntaf gweithrediad y BGLl newydd ei ffurfio. Oherwydd gwendidau o ran cydgysylltu a rheoli credai rhai partneriaid ei fod yn canolbwyntio'n gul ar faterion gweithredol lefel isel, a hynny ar draul mynd i'r afael â materion cymunedol pwysicach. O ganlyniad, teimlai nifer o bartneriaid y BGLl eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth ei nodau a'i amcanion, a arweiniodd at bresenoldeb afreolaidd mewn cyfarfodydd, a thrwy hynny leihau effeithiolrwydd prosesau gwneud penderfyniadau.

73 Cydnabu'r Cyngor a'i bartneriaid nad oedd y sefyllfa yn gynaliadwy a bod angen gwneud newid sylweddol er mwyn i'r BGLl wneud cynnydd a hyrwyddo gwell cydweithio a chanlyniadau. Pennwyd cam seibiant ac adolygu yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cynnwys penodi Rheolwr Partneriaeth newydd i gydgysylltu gweithgareddau'r BGLl yn well, helpu i lunio Cynllun Integredig Unigol ar y cyd i Wynedd ac Ynys Môn, a chytuno ar flaenoriaethau newydd. Ar ddechrau 2014, yn ystod y cam seibiant ac adolygu, gwnaeth y BGLl nifer o benderfyniadau pwysig, gan gynnwys y canlynol:

a datblygu uchelgais newydd sy'n canolbwyntio'n fwy ar gau'r bwlch ariannu mewn gwasanaethau cyhoeddus;

b nodi cydbwysedd priodol rhwng rheoli'r galw yn effeithiol a gwario yn y byrdymor, ac ymyriadau amlasiantaeth effeithiol a'r effaith ar y galw am wasanaethau yn y tymor canolig i hirdymor;

c datblygu nifer fach o flaenoriaethau allweddol ar gyfer cyflawni dros y ddwy flynedd nesaf; ac

ch adolygu strwythurau partneriaeth a threfniadau llywodraethu presennol y BGLl.

74 Er mwyn helpu i wella cyfathrebu, trefnodd Rheolwr y Bartneriaeth gyfarfodydd rheolaidd ag aelodau unigol o'r BGLl er mwyn eu helpu i ddatblygu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau, tra'n ceisio ennyn cefnogaeth gan bob partner. Drwy'r fenter hon anogwyd mwy o ymddiriedaeth, ymrwymiad a chydweithredu ymhlith holl bartneriaid y BGLl. Gwellodd presenoldeb yng nghyfarfodydd y BGLl yn sylweddol yn ystod 2014.

75 Mabwysiadodd y BGLl ddull meddylfryd systemau o ddatblygu'r blaenoriaethau newydd, a oedd yn cynnwys defnyddio ymgynghoriaeth allanol er mwyn hwyluso cynhadledd ac yna weithdai i bartneriaid. Arweiniodd hyn at fwy o ddealltwriaeth o ddiwylliant, nodau ac amcanion y sefydliadau partner a datblygu tair blaenoriaeth strategol glir. Etholwyd Cadeirydd newydd ar y BGLl ym mis Tachwedd 2014. Mae gan y Cadeirydd wybodaeth a phrofiad mewn nifer o feysydd sy'n gydgysylltiedig â blaenoriaethau newydd y BGLl, megis tai a materion cymdeithasol ac economaidd.

76 Er gwaethaf y cynnydd diweddar hwn o ran llywodraethu a rheoli perfformiad, mae'r systemau'n datblygu o hyd. Mae'r BGLl wedi cytuno ar fodel llywodraethu a chraffu unigol, sy'n dod ag arbenigedd a gwybodaeth allanol gan amrywiaeth o bartneriaid ac yn eu cynrychioli. Mae'r model wedi denu sylw Llywodraeth Cymru a BGLlau cyfagos. Cytunwyd ar ffrydiau gwaith i gyflawni'r tair blaenoriaeth ac mae aelodau unigol o'r BGLl wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu goruchwylio ac am eu hynt. Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cefnogi ac yn mentora trefniadau llywodraethu'r BGLl.

77 O ganlyniad i'r amrywiol fentrau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, mae'r BGLl mewn sefyllfa well i sicrhau mwy o weithio mewn partneriaeth na chynt a gwell canlyniadau i ddinasyddion y ddwy Sir. Mae goblygiadau cynnar Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi cael eu hystyried, megis canolbwyntio ar dorri cylch a phatrymau ymddygiad rhai cymunedau ac unigolion sy'n arwain at fwy o alw a gwasanaethau bregus ymhlith partneriaid. Mae partneriaid megis Parc Cenedlaethol Eryri, Medrwn Môn a Phrifysgol Bangor yn rhan o brosiectau sy'n cefnogi ac yn lleddfu pwysau ar wasanaethau cyhoeddus prif ffrwd.

78 Er gwaethaf y cynnydd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, mae nifer o faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn cynnal y momentwm. Cyhoeddwyd y Cynllun Integredig Sengl – Atgyfnerthu ein cymunedau yn Ynys Môn a Gwynedd (2013-2017) – ym mis Awst 2014, cyn i'r BGLl ddatblygu ei flaenoriaethau newydd. Mae angen i'r Cynllun gael ei ddiweddaru i ystyried y blaenoriaethau newydd a nodi ffrydiau gwaith partneriaid unigol. Hefyd, mae nifer o aelodau gweithredol, a Rheolwr y Bartneriaeth, wedi cyhoeddi'n ddiweddar eu bod yn ymddeol neu'n gadael, ac mae hyn wedi codi pryderon ynglŷn â chadernid a gallu, ac mae'n her sylweddol i'r Cyngor a'i bartneriaid ar y BGLl.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Gwynedd

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Gwynedd (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chadarnhau a wyf yn credu bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Huw Lloyd Jones, Rheolwr, Swyddfa Archwilio Cymru
Nigel Griffiths, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad,
Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 3 – Archwiliad o Asesiad Cyngor Gwynedd o berfformiad 2013-14

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Gwynedd (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Huw Lloyd Jones, Rheolwr, Swyddfa Archwilio Cymru
Nigel Griffiths, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Dyfed Edwards
Dilwyn Williams
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Annwyl Dyfed a Dilwyn

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Gwynedd 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. **Ar 30 Medi 2014, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn**. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiadau ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2014.

Daeth fy adroddiadau i'r casgliad bod y Datganiad Cyfrifon wedi'i baratoi i safon dda yn gyffredinol. Nodais y gallai'r Cyngor wneud rhagor o waith i wella ei arferion cyfrifyddu mewn perthynas a chynnal ei gofrestr o asedau anghyfredol. At hynny, nodais un gwendid perthnasol yn eich rheolaethau mewnol a oedd yn berthnasol i'r Cyngor yn uniongyrchol ac yn ei rôl fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. Nid oedd y data aelodaeth a ddarparwyd gan rai cyflogwyr, i'w defnyddio yn systemau'r gronfa bensiwn, yn gyfredol a gallai hyn gael effaith sylweddol ar y prisiad bob tair blynedd a'r prisiadau IAS19 blynyddol a ddarperir gan yr actiwari.

Ers i mi gyfeirio at hyn yn fy llythyr archwilio blynyddol yn 2012-13, nid oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r mater hwn cystal ag yr oedd wedi gobeithio ac roedd ansawdd data aelodaeth rhai Cyrff Cyflogi yn broblem o hyd ar gyfer 2013-14 ond nid effeithiodd ar fy marn ar y datganiadau ariannol. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi defnyddio adnoddau dros dro i fynd i'r afael â'r mater ac mae'n gwneud cynnydd da o ran cysoni data aelodaeth.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu Cyfrifon Llywodraeth Gyfan o dan **Orchymyn Cyfrifon Llywodraeth Gyfan (Dynodi Cyrff)** Trysorlys EM. Cyflwynodd y Cyngor ei ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan erbyn y dyddiad penodedig. Adolygwyd y ffurflen gennym ac ni nodwyd unrhyw faterion yr hoffem dynnu eich sylw atynt.

Mae'n werth nodi hefyd bod y Cyngor yn arwain y gwaith o baratoi cyfrifon y tri Chyd-bwyllgor (GwE, Anghenion Addysgol Arbennig a'r Cyd-bwyllgor Cynllunio Polisi ar y Cyd). Ar 30 Medi, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y cyfrifon, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y priod Gyd-bwyllgorau. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r priod Bwyllgorau yn fy adroddiadau ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol. Nid oes angen i mi ddwyn unrhyw beth at eich sylw yn y llythyr hwn.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

**Rhoddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon (ar gyfer Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd) wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2013**. Rhoddais hefyd dystysgrif gwblhau ar gyfer y Cyd-bwyllgorau ar yr un diwrnod.

## Nid yw’r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai’n effeithio ar gyfrifon 2014-15 na systemau ariannol allweddol

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn ystod Gwanwyn 2015 unwaith y bydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi’i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fod yn unol â’r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o’r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

Derwyn Owen
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiad cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A5 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A6 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A7 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A8 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. |
| | | A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. |
| | | A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. |
| | | A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A5 | Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A7 | Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

# Atodiad 6 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau Cyngor Gwynedd


Cyfanswm Incwm Gros 2013-14





Cyfanswm Incwm a Gwariant




Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn 2010-11 i 2012-13




Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru